Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Your Ref/Eich cyf:
Our Ref/Ein cyf: KN / JMG
Date/Dyddiad: 2ail Mawrth 2021
Tel/ffôn:
Fax/Ffacs:
Email/ebost: Jayne.gibbs@wales.nhs.uk
Dept/Adran: Executive Directorate / Public Health

Annwyl Riant/Warcheidwad

Fel eich Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd lleol, ysgrifennaf atoch wrth i'ch plentyn/plant ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, i ofyn am eich help i weithio gyda ni i wneud hyn yn llwyddiant.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar ein bywydau i gyd, ac fel rhieni, byddwch wedi bod yn poeni am yr effaith y mae wedi'i chael ar les eich plentyn, ei gyfeillgarwch â ffrindiau a'i gyfle i dyfu a datblygu drwy ddefnyddio'r amrywiaeth arferol o weithgareddau, yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Mae'r camau y bu'n rhaid inni eu cymryd fel cymdeithas i amddiffyn y rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf, a sicrhau y bydd ein gwasanaethu iechyd a gofal yn parhau i'n gwarchod pan fydd eu hangen arnom, wedi bod yn anodd ond yn angenrheidiol.

Nid ydym yn gallu ymlacio eto; mae angen i ni fod yn ofalus o hyd, er mwyn cadw lefelau'r haint mor isel ag sy'n bosibl. Mae llwyddiant y rhaglen frechu leol yn darparu amddiffyniad ychwanegol i'r rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf, a byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i gyrraedd pawb mor gyflym ag sy'n bosibl.

Mae rheoli'r pandemig yn lleol a diogelu ein poblogaeth yn ymdrech bartneriaeth, ac rwy'n gweithio'n agos gyda'm cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd, yr Awdurdod Lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ond ni allwn lwyddo heb eich help chi.

Mae ein penaethiaid, staff yr ysgol a chydweithwyr yn yr Awdurdod Lleol wedi gweithio ddydd a nos i sicrhau bod ein hysgolion mor ddiogel â phosibl. Rwy'n gofyn i chi nawr barhau i chwarae eich rhan wrth reoli lledaeniad y feirws pan fydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol unwaith eto:

- Cadwch eich plentyn gartref os yw'n sâl, hyd yn oed os nad ydych yn sicr a yw'r coronafeirws ganddo.
- Parhewch i weithio gartref os yw'n bosibl.
- Peidiwch â chael plant eraill i'ch cartref i chwarae, hyd yn oed yn yr awyr agored, neu hyd yn oed os ydynt yn yr un swigen yn yr ysgol.
- Peidiwch â rhannu ceir wrth deithio i'r ysgol neu ar gyfer gweithgareddau gyda rhieni eraill oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.

- Cadwch eich pellter wrth rieni eraill, ac osgoi siarad ymysg eich gilydd wrth fynd â'ch plentyn i'r ysgol.
- Sicrhewch fod eich plentyn yn deall pwysigrwydd golchi dwylo'n rheolaidd.

Diolch am eich help wrth i ni geisio cadw golwg ar y feirws ac wrth i ni geisio dychwelyd i ryw fath o normalrwydd cyn gynted ag y bo modd.

Yours sincerely,



Professor Kelechi Nnoaham

Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd ac Arweinydd Ymchwil a Datblygu ac Arloesi / Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Executive Director of Public Health & Lead for R&D and Innovation / Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Your Ref/Eich cyf:
Our Ref/Ein cyf: KN / JMG
Date/Dyddiad: 2nd March 2021
Tel/ffôn:
Fax/Ffacs:
Email/ebost: Jayne.gibbs@wales.nhs.uk
Dept/Adran: Executive Directorate / Public Health

Dear Parent/Carer

As your local Director of Public Health, I am writing to you as your child/children return to face-to-face learning, to ask for your help in working with us to make this return a success.

The pandemic has had an impact on all of our lives, and as parents you will have been worried about the impact it has had on your child's wellbeing, their friendships and their opportunity to grow and develop through the usual variety of activities, both in and out of school.

The steps that we have had to take as a society to protect those who are most at risk, and to ensure that our health and care services can continue to care for us when we need them, have been difficult but necessary.

We are not able to relax yet; we still need to be careful, in order to keep the levels of infection as low as possible. The success of our local vaccination programme is providing additional protection to those who are most at risk, and we will continue our efforts to reach everyone as quickly as we can.

Managing the pandemic locally, and protecting our population, is a partnership effort, and I work closely with my colleagues in the Health Board, the Local Authority, voluntary and community organisations and Public Health Wales, but we will not succeed without your help.

Our Headteachers, school staff and Local Authority colleagues have worked very hard to ensure our schools are as safe as possible. I am asking you now to continue playing your part in controlling the spread of the virus once your child is again attending school:

- Keeping your child at home if they are unwell, even if you are not sure if it is coronavirus.
- Continuing to work at home if at all possible.
- Not having other children to your home to play, even outdoors, and even if they are in the same bubble at school.
- Not sharing a lift to school or other activities from other parents unless absolutely necessary.
- Keeping your distance from other parents, and not hanging around to chat when you take your child to school.
- Making sure your child understands the importance of washing their hand regularly.

Thank you for your help in keeping the virus in check and helping us all return to normal as soon as we can.

Yours sincerely,

Professor Kelechi Nnoaham

Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd ac Arweinydd Ymchwil a Datblygu ac Arloesi / Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Executive Director of Public Health & Lead for R&D and Innovation / Cwm Taf Morgannwg University Health Board